PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

www.aber.ac.uk/cy/news

# NEWYDDION Aber

*Aberystwyth… un o'r llefydd gorau yn y byd i fod yn fyfyriwr*

RHIFYN 15
Hydref 2013




2 TFTS @ 40

4 Myfyrwyr ar y brig

7 Haf prysur i'r Ganolfan Saesneg Ryngwladol

8 Ymchwil cam-drin yr henoed

10 Organau, Pensiynau a Chymell y Cymry


# Llanbadarn ar agor

Wedi misoedd o baratoi ac adnewyddu, mae Canolfan Llanbadarn yn gartref newydd i Athrofa Rheolaeth, y Gyfraith a Gwyddor Gwybodaeth.

Yn sgil rhaglen wella a welodd fuddsoddiad o £3.5m gan y Brifysgol, i greu amgylchedd fusnes a phroffesiynol newydd ar gyfer yr Ysgol Rheolaeth a Busnes, Adran y Gyfraith a Throseddeg a'r Adran Astudiaethau Gwybodaeth, agorodd y drysau ar ddechrau'r tymor newydd.

Mae Canolfan Llanbadarn mewn ardal hyfryd gyda gerddi hardd a digon o ardaloedd i gerddwyr, gofod gwyrdd a pharcio. Mae pum adeilad yr Athrofa yn hawdd eu cyrraedd, yn olau ac yn fywiog. Y tu mewn, mae pob un o'r adeiladau wedi cael eu had-drefnu a'u hadnewyddu ac yn cynnwys ystafelloedd dysgu sy'n cynnig yr offer diweddaraf, mannau dysgu nad ydynt yn draddodiadol, ardaloedd cymdeithasol a chyfleusterau TG, a'r cyfan yn ateb anghenion dysgu a datblygiad proffesiynol modern.

Diolchodd Rebecca Davies, Dirprwy Is-Ganghellor Gwasanaethau i Fyfyrwyr a Staff, am y gwaith caled a'r penderfyniad a welwyd er mwyn sicrhau fod y trawsnewid cyflawn: "Mae hwn yn ddatblygiad gwych i'r Brifysgol, canolfan benodedig ar gyfer ARhGG a gwblhawyd drwy ymroddiad ein cydweithwyr o fewn y Brifysgol a'r contractwyr. Rwy'n diolch iddynt oll. Mae hwn yn rhan o'r newid mawr yr ydym yn buddsoddi ynddo yma ym Mhrifysgol Aberystwyth er mwyn darparu amgylchedd ymchwil, dysgu a chymdeithasol o'r radd flaenaf."

Bydd gan Ganolfan Llanbadarn lyfrgell bwrpasol yn Adeilad Thomas Parry sy'n cynnwys gwerslyfrau, cyfnodolion ac adnoddau cymorth addysgu. Bydd mynediad llawn i'r adnoddau electronaidd diweddaraf.

Bydd staff wedi eu lleoli yn y ddau brif adeilad, Adeilad Elystan Morgan ac Adeilad Rheidol. Mae yna hefyd fwyty newydd sbon, Blas Padarn, sydd, o bosibl, yn medru ymffrostio taw dyma'r man astudio anffurfiol a bwyty prydfertha yng Nghymru.

Cyhoeddir NEWYDDIONAber gan **Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus**, Prifysgol Aberystwyth.

Ffon 01970 622946.
E-bost: cyfathrebu@aber.ac.uk

Bydd y rhifyn nesaf o NEWYDDIONAber ar gael ym mis **Ionawr 2014.**

Dyddiad cau ar gyfer y rhifyn nesaf yw **Dydd Llun 4ydd Tachwedd.**

NEWYDDION

# Yr Adran Astudiaethau Theatr Ffilm a Theledu yn 40




Sut beth fyddai bod yn bry ar y wal yng nghyfarfodydd y Senedd a'r Cyngor yng Ngholeg Prifysgol Cymru yn 1972 ac 1973? Pam felly? I fod yn dyst i'r dadleuon o blaid ac yn erbyn sefydlu Adran Ddrama ym mhrifysgol hynaf Cymru! Fis Medi eleni bydd 40 mlynedd wedi mynd heibio ers i'r Adran Ddrama gynnig ei chyrsiau cyntaf. Rhag ofn i bethau fynd o chwith, dim ond cyrsiau anrhydedd cyfun a ganiatawyd yn y lle cyntaf (gyda phynciau mwy 'parchus' yn ôl pob tebyg megis Saesneg, Cymraeg a Hanes). Serch hynny, yn 1976, dechreuodd yr Adran gynnig cyrsiau gradd anrhydedd sengl mewn Drama. Ac o'r sylfeini syml hynny, yn adeilad y Buarth ar Ffordd Alexandra ac wedyn mewn tŷ wedi'i addasu yn 1 Maes Lowri, y tyfodd un o adrannau mwyaf y Brifysgol ac un o'r adrannau mwyaf o'i math yn y Deyrnas Unedig.

John Edmunds oedd y Pennaeth a Chyfarwyddwr Drama cyntaf. Roedd gan John brofiad helaeth yn gweithio yn y cyfryngau, gyda chwmnïau ITV ac ATV (*Associated-Rediffusion*) ac wedyn gyda'r BBC. Yn wir, roedd yn dal i fod yn wyneb cyfarwydd yn darllen y newyddion tan 1981.

Yn 1985 daeth Elan Closs Stephens i gymryd yr awennau yn yr Adran. Bellach mae Elan yn Ymddiriedolwr Cenedlaethol Cymru ar Ymddiriedolaeth y BBC, ac yn Athro Emeritws yn yr Adran.

Ym 1991 daeth Ioan Williams yn bennaeth ac arhosodd yn y swydd tan ei ymddeoliad yn 2007. O dan arweiniad Ioan ehangodd yr Adran gan gyflwyno cynlluniau gradd newydd mewn Astudiaethau Ffilm a Theledu, Astudiaethau'r Cyfryngau a Chyfathrebu, Astudiaethau Perfformio a Senograffeg a Dylunio Theatr. Ailenwyd yr Adran Ddrama yn Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu yn 1994. Yn 1996 sefydlwyd Canolfan Astudiaethau Ffilm a Theledu yn adeilad y Buarth ac yn 2000 symudodd yr Adran i'w chartref newydd yn Adeilad Parry-Williams ar Gampws Penglais. Roedd yr Adran yn dal i'w gweld yn y dref serch hynny ar safle Theatr y Castell a datblygwyd stiwdio deledu a gofod senograffeg ar Llanbadarn hefyd.

Penodwyd Adrian Kear yn bennaeth ar yr Adran yn 2007 ac yn ogystal ag wynebu Ymarfer Asesu Ymchwil ac Adolygiad Cyfnodol o fewn wythnos ar ôl iddo gyrraedd, fe ymgymerodd ag arwain arolwg o gwricwlwm yr Adran.

Yn 2011, penodwyd Jamie Medhurst yn bennaeth dros-dro tra'r oedd Adrian ar gyfnod ymchwil, a phan ofynnwyd i Adrian gynnal adolygiad strategol o'r celfyddydau creadigol a pherfformio ar yr Prifysgol yn 2012 gwnaed Jamie Medhurst yn bennaeth ar yr Adran.

Ac erbyn hyn? Mae'r adran yn iach fel y gneuen heb unrhyw arwyddion heneiddio! Gydag oddeutu 900 o fyfyrwyr israddedig ac uwchraddedig ac oddeutu 70 o staff, mae'r ddeinameg, yr egni a'r creadigrwydd a fu'n rhan o natur yr Adran ers y dechrau'n deg yn dal i fod yno. Yn ogystal â chynlluniau gradd israddedig ac uwchraddedig cadarn, mae gan yr Adran amgylchedd ymchwil bywiog a llewyrchus a rhestr glodwiw o bartneriaethau allanol gyda'r diwydiannau diwylliannol a chreadigol.

Mae cynlluniau ar y gweill i gynnal nifer o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn hon i nodi pen-blwydd yr adran - felly cadwch lygad allan!



*Cyn-fyfyriwr a Chymrawd y Brifysgol, cyflwynydd* The One Show *Alex Jones (canol) gyda Dr Jamie Medhurst a'r Athro April McMahon*



## COLOFN YR IS-GANGHELLOR



Rwy'n edrych ymlaen at fis Medi bob blwyddyn – rwy'n ei gysylltu'n fwy â blwyddyn newydd a dechreuadau newydd na'r Flwyddyn Newydd go-iawn ym mis Ionawr, sydd, am wn i, yn ddealladwy i un sydd wedi treulio'i bywyd mewn ysgolion a phrifysgolion. Ac wrth inni edrych ymlaen at groesawu'r garfan newydd o fyfyrwyr, a'r rheiny sy'n dod nôl i gyfnodau astudio gwahanol gyda ni, gallwn hefyd ddathlu rhywfaint o newyddion da. Mae Prifysgol Aberystwyth wedi cyrraedd rhestr fer y categori Cyfraniad Eithriadol i Arloesi a Thechnoleg yng Ngwobrau Addysg Uwch y *Times Higher Education* 2013. Mae Aberystwyth yn un o chwe phrifysgol ar y rhestr fer, ac mae ein cais yn canolbwyntio ar fridio a datblygu Glaswellt Siwgwr Uchel (AberHSG) gan wyddonwyr yn IBERS. Croeswch eich bysedd, ac fe gawn wybod y canlyniad ddiwedd Tachwedd.

Wrth gwrs, nid newyddion da yw pob newyddion, ac nid wyf am honni mai cadarnhaol fu pob dim yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fodlonrwydd Myfyrwyr eleni. Bu rhai gwelliannau amlwg, a gallwn weld bod pryderon a wyntyllwyd gan fyfyrwyr yn ambell adran wedi eu trin; ond cafwyd gostyngiad sylweddol ym modlonrwydd myfyrwyr mewn sawl pwnc, sy'n cael effaith amlwg ar ein perfformiad yn gyffredinol. Lle mae 'na broblemau, rydym yn gweithio arnyn nhw'n ddiwyd iawn, ar y cyd ag Undeb y Myfyrwyr, sy'n edrych yn llawer mwy bywiog ac yn cynnig llawer mwy o ddewisiadau arlwyo y dyddiau hyn. Mae'n wych hefyd tynnu sylw at arferion arloesol, eithriadol ym maes dysgu ac addysgu trwy gyfrwng cynhadledd fewnol a gynhelir yr wythnos cyn i'r myfyrwyr newydd gyrraedd; rwy'n falch iawn fod cymaint o gyffro ynglŷn â'r achlysur ac ynglŷn ag arddangos arddulliau newydd a rhannu syniadau da. Ond mae'r broblem fwyaf yn un a fu'n cynyddu'n raddol ers peth amser, ac fe fydd yn cymryd cyfnod lawn cyn hired i'w datrys hefyd. Nid ydym yn gwneud cystal yn rhai o'r cynghreiriau am nad ydym wedi cynnal a chadw safon ein hadeiladau a'n campws, ac yn hwyr neu'n hwyrach mae'r myfyrwyr a'r staff yn dechrau sylwi.

Mae'n arbennig o bwysig ein bod ni'n dathlu adeiladau newydd rhagorol, a'r cyllid sy'n ein rhoi mewn sefyllfa i'w datblygu. Mae'n wych, er enghraifft, gweld bod adeilad newydd IBERS ar gampws Penglais wedi ennill graddfa Rhagorol BREEAM, safon i'w chwennych yn fawr, sy'n dyst i'r safonau uchel iawn o ran effaith amgylcheddol a chynaliadwyedd. Ond, yr hyn y gwelwn lawer ohono ar y campws o ddydd i ddydd yw'r elfennau llai deniadol ac nid yn gymaint yr adeiladau newydd, uchel eu proffil – rhannau lle mae'r paent yn plicio, lle nad yw'r golau'n dangos dim ar ei orau, carpedi a welodd ddyddiau gwell, a thai bach sydd wir yn ofnadwy. Yn y Strategaeth Ystadau, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i greu ystâd hardd, cydlynol a chynaliadwy, ac mae'n rhaid i hynny gynnwys rhoi trefn ar ein cyfleusterau dydd i ddydd.



*TaMed Da*

Fe ddechreuwyd gyda dau brosiect yr haf hwn. Yn gyntaf, gan ddilyn cyfarwyddyd ein harbenigwyr preswyl ar fannau dysgu a thechnoleg dysgu, adnewyddwyd holl brif ystafelloedd dysgu Adeilad Hugh Owen. Bellach ceir ynddynt offer arbennig ac adnoddau dysgu o'r radd flaenaf, ac maent yn wahanol iawn i'r mannau trist y ffarweliodd myfyrwyr â nhw fis Mehefin. Yn ail, rydym wrthi'n cyflawni cyfres o symudiadau, a bydd dros 1,000 o fyfyrwyr yn dychwelyd i Ganolfan fywiocach wedi'i hadnewyddu'n llwyr yn Llanbadarn y semester hwn. Bydd Y Gyfraith a Throseddeg yn mynd i Adeilad Elystan Morgan, a'r Ysgol Rheolaeth a Busnes a'r Adran Gwyddor Gwybodaeth yn ymgartrefu yn Adeilad Rheidol, ynghyd â llyfrgell well a chyfleusterau arlwyo sydd wedi'u hailwampio'n llwyr. Mae tirlunio, mannau dysgu wedi'u hailfodelu a digon o le i barcio yn creu canolfan broffesiynol newydd i fyfyrwyr, staff ac ymwelwyr heddiw. Ac mae'n edrych yn wych.



*Ystafell ddysgu adnewyddu, Adeilad Hugh Owen*

Wrth gwrs, nid yw'n hawdd symud adrannau cyfain o le i le – bydd unrhyw un sydd wedi symud tŷ yn gwybod am y pwysau a'r poen meddwl sydd ynghlwm wrth hynny, a gallwch luosi hynny â sawl cant ar gyfer prosiectau fel hyn. Ni fydd pob dim yn gweithio'n berffaith ar y diwrnod cyntaf bob tro, a bydd yn rhaid newid cynlluniau i addasu i'r hyn y byddwn yn dod ar ei draws yn ystod cyfres o brosiectau mawr. Rydym yn gwerthfawrogi amynedd a gwaith caled pawb sydd wedi peri bod y cam cyntaf hwn yn jig-sô'r ystadau yn digwydd – cafwyd cynifer o gyfraniadau eithriadol gan dîm sylweddol o gydweithwyr o bob rhan o'r Brifysgol. Mae'r newidiadau yn gam tuag at adeiladu Prifysgol fwy hyderus lle bydd ansawdd y cyfleusterau'n cyfateb i ansawdd y gwaith rhagorol y mae pob un ohonoch yn ei wneud, ac fe ddylai ysbrydoli bob un ohonom i anelu hyd yn oed yn uwch. Bydd yn bleser mawr eleni cael croesawu myfyrwyr hen a newydd i'r cyfnod cyntaf hwn o'n hystâd hardd, cydlynol a chynaliadwy.

**Yr Athro April McMahon,** Is-Ganghellor

NEWYDDION

# Llwyddiant mewn arolwg Estyn i Feithrinfa Penglais

Mae Estyn, sef swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, wedi canmol Meithrinfa Penglais y Brifysgol yn dilyn ei harolwg ym mis Gorffennaf.

Mae Meithrinfa Penglais, a agorwyd mewn lleoliad pwrpasol ar y campws y llynedd, wedi'i chofrestru ar gyfer 58 o fabanod a phlant hyd at bedair blwydd oed, ac mae'n darparu gofal yn ystod dyddiau'r wythnos i blant staff a myfyrwyr y brifysgol ynghyd â phlant o'r gymuned leol a'r ardaloedd cyfagos.

Dyfarnwyd bod y feithrinfa yn "dda" yn ôl ei pherfformiad presennol a hefyd yn "dda" yn ôl y rhagolygon gwella, a dywedai'r arolwg fod y lleoliad yn "ofalgar a chynhwysol" a bod yr "amgylchedd dysgu rhagorol yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf er mwyn cyfoethogi dysgu'r plant".

Nododd yr arolwg bod "y plant yn teimlo'n hapus a diogel yn y feithrinfa" a'u bod yn "cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn". Dywedwyd bod safon yr addysgu'n 'gyson dda' a bod "yr ystod eang o brofiadau diddorol a gweithredol yn sicrhau bod plant yn mwynhau ac yn ymgymryd â'u dysgu gyda brwdfrydedd".



*Mae staff a phlant ym Meithrinfa Penglais*

Canfu'r arolwg bod y feithrinfa'n datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru, a bod "yr iaith Gymraeg yn cael ei datblygu'n dda trwy sesiynau penodol a chaiff y plant fodel naturiol o'r Gymraeg".

Nododd yr adroddiad bod rhagolygon y feithrinfa yn dda, oherwydd "safon dda'r arweinyddiaeth", "cyfeiriad strategol clir", "ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus", a "thîm sydd wedi'i hir sefydlu'n sicrhau cysondeb a sefydlogrwydd a gweithia'r ymarferwyr yn dda iawn gyda'i gilydd".

Gallwch weld Adroddiad Arolygiad Llawn Estyn trwy glicio ar y ddolen isod: www.estyn.gov.uk/cymraeg/darparwr/6679122

# Prifysgol Haf

Unwaith eto, bu Prifysgol Haf breswyl chwe wythnos Prifysgol Aberystwyth yn llwyddiant ysgubol yn ôl y staff a'r myfyrwyr. Daeth 78 o bobl ifanc i'r seremoni 'raddio' a arweiniwyd gan yr Is-Ganghellor ar 23 Awst.

Trefnir y Brifysgol Haf, rhaglen flaenllaw i ehangu mynediad, gan Ganolfan Ehangu Cyfranogiad a Chynhwysiant Cymdeithasol y Brifysgol, ac mae'n cynnig cyfle i bobl ifanc brofi bywyd Prifysgol, gan herio'r dybiaeth nad yw addysg uwch yn rhywbeth iddyn nhw.

Cryfder Prifysgol Haf Aberystwyth, yn ôl ei rheolwr, Dr Debra Croft, yw ei bod yn galluogi grŵp mawr o fyfyrwyr ddod ynghyd am amser estynedig lle cânt astudio pynciau o'u dewis nhw, wedi'u dysgu gan academyddion yn yr Adrannau, gan efelychu bywyd prifysgol mewn modd mor realistig â phosib.



*Chwith i'r Dde: Mr Neil Surman, Pennaeth yr Adran Addysg Uwch dros Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru; Myfyrwyr y Brifysgol Haf, Alice Frobisher, James Alchin a Natalie Dearden-Cook; Yr Athro April McMahon, Is-Ganghellor a Brenda Haines, Dirprwy Faer Aberystwyth.*

# Myfyrwyr ar y brig

Gwnaeth Martin Jones, Manon Chirgwin a James Mulcahy, myfyrwyr o Adran y Gyfraith a Throseddeg Prifysgol Aberystwyth, yn rhagorol yng nghystadleuaeth ymryson y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn ddiweddar.



*Manon Chirgwin a Martin Jones*

Martin Jones enillodd y gystadleuaeth, sy'n agored i holl fyfyrwyr Cymru. Graddiodd Martin ym mis Gorffennaf gyda gradd dosbarth cyntaf yn y gyfraith, ac mae ar fin cychwyn ar un o'r cyrsiau LLM newydd sy'n cael eu cynnig gan Adran y Gyfraith a Throseddeg. Un arall a raddiodd eleni yw Manon Chirgwyn a ddaeth yn ail. Bydd Manon hefyd yn aros yn Aberystwyth, ac yn dechrau ar Gwrs Ymarfer y Gyfraith ym mis Medi. Bydd James Mulcahy, cystadleuydd arall o Aberystwyth yn dechrau trydedd flwyddyn ei astudiaethau israddedig.

Cafodd y beirniad, Gwenno Price-Jones o JRL Law, cwmni cyfreithwyr o Lanrwst, argraff dda iawn o safon broffesiynol y bwndeli llys a baratowyd gan y myfyrwyr, ynghyd â gwaith ymchwil y myfyrwyr a'u dawn arbennig wrth gyflwyno'u dadleuon. Cydnabu hefyd allu'r myfyrwyr i drawsieithu gan ddadansoddi gwybodaeth ysgrifenedig Saesneg, a'i gyflwyno yn Gymraeg.

NEWYDDION

# Croesawu beicwyr

Ym mis Awst, cafodd Beicwyr Modur Hoyw a Lesbiaidd yn Ewrop (GMLE) eu croesawu i Brifysgol Aberystwyth am ei Gwersyll Haf wythnos o hyd a gynhaliwyd gan Glwb Beicwyr Beiciau Modur Hoywon a Lesbiaid y Deyrnas Gyfunol.

Daeth 165 o feicwyr o 12 o wledydd Ewrop i brofi'r golygfeydd arfordirol a mynyddig syfrdanol, ffyrdd beicio anhygoel a lletygarwch cynnes Cymreig.

Dewiswyd y Brifysgol fel lleoliad gan ei fod yn lleoliad perffaith fel man cychwyn ar gyfer teithiau beiciau modur o amgylch Cymru: mae modd teithio i bob rhan o'r wlad - Gogledd, De, Dwyrain a Gorllewin - mewn diwrnod.

Yn ystod wythnos y GMLE codwyd baner yr Enfys - baner amryliw sy'n cynrychioli balchder hoyw, yn ogystal â bod yn arwydd o amrywiaeth a bod yn gynhwysol mewn diwylliannau eraill o amgylch y byd - tu allan i Ganolfan y Celfyddydau ac ochr yn ochr ag 'Enfys Aber', baner rhwydwaith Cymdeithas Lesbiaid, Hoywon, Deurywiol a Thrawsrywiol (LHDT) y Brifysgol. Cafodd hyn ei werthfawrogi gan grŵp y beicwyr.

Dywedodd Ruth Fowler, Cydlynydd Enfys Aber: 'Rwy'n falch iawn o fod yn gydlynydd y rhwydwaith. Rydym yn gwneud gwaith gwych yma ym Mhrifysgol Aberystwyth sy'n rhoi cyfle i aelodau cymdeithas LHDT staff, myfyrwyr a'r gymuned leol y cyfle i ymuno â chlybiau llyfrau a ffilmiau, digwyddiadau cymdeithasol, ac yn fwy na dim yn rhoi iddynt yr hyder i fod yn nhw eu hunain."

Mae'r rhwydwaith Enfys Aber wedi trefnu digwyddiad codi arian ar 26 Hydref yng Nghanolfan y Celfyddydau am 8pm a fydd yn cynnwys darlleniadau barddoniaeth, perfformiadau cerddorol byw, perfformiadau theatrig a mwy. Bydd yr holl arian a godir yn mynd tuag at elusennau sy'n trefnu lloches i Ymgyrchwyr Hawliau i Bobl Hoyw yn Iwganda a Rwsia. Mae croeso i bawb fynychu'r digwyddiad hwn.




*O'r chwith i'r dde: Julie Morgan , Rheolwr Swyddfa Gynhadledd; Olympia Petrou Ymgynghorydd Cydraddoldeb; Rory Harris o Beicwyr Modur Hoyw a Lesbiaidd yn Ewrop; Richard Marggraf Turley, Athro Ymgysylltu â'r Dychymyg y Cyhoedd a Craige Watson, Goruchwyliwr Diogelwch, yn ystod ymweliad y grŵp.*

Ychwanegodd Ruth: "Mae'r rhain yn elusennau pwysig iawn lle mae taer angen cymorth i godi ymwybyddiaeth am faterion LHDT, felly rydym ni fel rhwydwaith yn falch iawn o allu helpu. Roeddem wrth ein boddau fod Prifysgol Aberystwyth wedi ymddangos yn uchel iawn yn nhabl cyngrair Gay by Degree y mudiad Stonewall yn ddiweddar, ac rydym yn awyddus i adeiladu ar hyn yn y dyfodol. Mae Undeb y Myfyrwyr hefyd wedi trefnu gorymdaith Aber Balch ar y Prom yn ddiweddar. Rwy'n falch iawn ym mod yn gweithio i Brifysgol sydd mor gynhwysol a hoyw gyfeillgar."

# Tywydd eithafol

Mae Dr Sarah Davies a Dr Cerys Jones, o'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, yn gyd-ymchwilwyr ar gynnig ymchwil llwyddiannus i'r AHRC ar y thema 'Gofal am y Dyfodol'.

Arweinir y prosiect tair blynedd, o'r enw '*Spaces of experience and horizons of expectation: the implications of extreme weather events, past, present and future*' gan yr Athro Georgina Endfield (Prifysgol Nottingham), ac mae aelodau eraill y prosiect yn gweithio ym mhrifysgolion Lerpwl, Glasgow a Nottingham.

Trwy ddefnyddio cyfuniad o ffynonellau hanes llafar a dogfennau archif bydd y tîm yn edrych ar y ffordd y mae pobl wedi deall a chael eu heffeithio gan eithafoedd y tywydd, ac wedi ymateb iddo dros y tair canrif ddiwethaf yn y Deyrnas Unedig.

Defnyddir rhanbarthau yng ngogledd a gorllewin Cymru, Arfordir Dwyrain Anglia, Gogledd-orllewin yr Alban, canolbarth Lloegr a de-orllewin Lloegr yn astudiaethau achos i edrych ar strategaethau ar ymdopi â thywydd eithafol ac i archwilio sut mae canfyddiadau o risg a bod mewn perygl yn y fath ddigwyddiadau wedi newid dros amser.



*Dr Sarah Davies a Dr Cerys Jones*

Bydd tîm y prosiect yn gweithio mewn partneriaeth â phrosiect ACRE y Swyddfa Dywydd (sef *Atmospheric Circulation Reconstructions over the Earth*), y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol, *English Heritage* a Chyfoeth Naturiol Cymru. Bydd yr ymchwil a gynhelir yn Aberystwyth yn cyfrannu at heriau mawr dau o brosiectau Consortiwm Newid Hinsawdd Cymru (C3W), sef 'Dimensiynau Newid Hinsawdd Gymreig' a 'Gwerthuso Peryglon a Risg' a bydd staff C3W yn cynorthwyo amryw o weithgareddau maes.

Bydd hwn yn brosiect gwerth dros £1 Miliwn, a thua £325,000 ohono'n cael ei weinyddu yn Aberystwyth.

NEWYDDION CRYNO

## Llaeth iach



Dr Sharon Huws, Darlithydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol mewn Gwyddor Anifeiliaid yn IBERS

Mae ymchwilwyr o Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig wedi darganfod bod y cemegau sy'n rhoi'r aroglau 'gwyrdd' nodweddiadol o laswellt newydd ei dorri, yn lladd y bacteria sy'n trawsnewid brasterau omega-3 yn frasterau dirlawn yn stumog y fuwch. Gallai'r darganfyddiad, a gyhoeddwyd yn *Journal of Applied Microbiology*, arwain at gynnyrch llaeth a fydd yn cynnwys cyfradd uwch o frasterau iach omega-3 drwy'r flwyddyn.

Y stori'n llawn: www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2013/08/title-139517-cy.html

## Cydnabod arloesedd yn y fio-economi



Gwyddonydd BEACON, Dr Sreenivas Rao Ravella

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Bio-buro, BEACON, a arweinir gan IBERS, wedi'i rhoi ar restr fer Gwobrau RegioStarts y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2014. Mae'r gwobrau hyn yn cydnabod y prosiectau rhanbarthol mwyaf ysbrydoledig ac arloesol yn Ewrop. Mae BEACON yn helpu busnesau Cymru i ddatblygu dulliau newydd o droi cnydau, megis rhygwellt, yn gynnyrch fferyllol, cemegau, tanwydd a chynnyrch cosmetig.

Y stori'n llawn: www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2013/08/title-139684-cy.html

## Llwybrau at arweinyddiaeth gwybodaeth



O'r Chwith i'r Dde: Tony Roche, Cyfarwyddwr Cyhoeddi Emerald Group Publishing Limited; yr Athro John Grattan Dirprwy Is-Ganghellor; Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Addysg a Sgiliau, Huw Lewis AC; yr Athro April McMahon, Is-Ganghellor, yn lansiad y rhaglen

Mae Aberystwyth wedi ymuno ag Emerald Group Publishing Limited a'r Gymdeithas Rheoli Gwybodaeth, i gyflwyno rhaglen datblygu proffesiynol ar-lein ac e-ddysgu mewn arweinyddiaeth gwybodaeth. Mae 'Llwybrau i Wybodaeth' yn cynnig dros 25 o gyrsiau ac yn cynnig dysgu a dargedir at ofynion penodol y dysgwr neu eu sefydliad, gan gyfuno hyblygrwydd a chyfleustra.

Y stori'n llawn: www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2013/09/title-140488-cy.html

## Rhestr Fer Gwobrau'r *Times Higher Education*

Mae Prifysgol Aberystwyth yn un o'r chwe Phrifysgol sydd wedi cyrraedd rhestr fer categori Cyfraniad Eithriadol i Arloesi a Thechnoleg yng Ngwobrau Addysg Uwch *Times Higher Education* 2013.

Mae cais Prifysgol Aberystwyth yn canolbwyntio ar fridio a datblygu Glaswellt Siwgr Uchel (AberHSG) gan wyddonwyr yn IBERS – Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig. Mae'r Brifysgol yn unigryw yn sector Addysg Uwch Prydain gan fod ganddi raglenni bridio planhigion, sy'n llwyddiannus yn fasnachol, ac sy'n cynhyrchu bridiau newydd sy'n cael eu marchnata ym Mhrydain a thramor. Y stori'n llawn: www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2013/09/title-139945-cy.html

## Rownd Derfynol Myfyriwr Ewropeaidd y Flwyddyn



Eleanor Paish gyda darlithydd IBERS, Rupert Marshall

Roedd Eleanor Paish a raddiodd mewn Swoleg o Aberystwyth yn un o dri myfyriwr yn unig a gyrhaeddodd rownd derfynol gwobr Myfyriwr Bioleg y Flwyddyn yng Ngwobrau Ewropeaidd Gwyddoniaeth Peirianneg a Thechnoleg 2013 (SET). Enwebwyd mwy na 500 o fyfyrwyr o bob cwr o Ewrop am y wobr a gyflwynwyd mewn seremoni ar 26 Medi yn Neuadd y Dref, Kensington. Bu Eleanor, a raddiodd ar frig ei dosbarth mewn Sŵoleg yr haf yma, yn ymchwilio i sut mae grwpiau o anifeiliaid yn gwneud penderfyniadau : "doethineb torfeydd ". Y stori'n llawn: www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2013/09/title-140189-cy.html

## Datgelu gwir raddfa cynhesu'r moroedd



Dr Pippa Moore, ymchwiliwr o IBERS, un o brif awduron yr astudiaeth

Mae twymo dyfroedd y moroedd yn peri i rywogaethau morol newid eu hamseroedd bridio a'u trigfannau, a disgwylir i hyn effeithio'n sylweddol ar y dirwedd forol ehangach yn ôl astudiaeth fyd-eang newydd a grybwyllwyd yn *Nature Climate Change* ym mis Awst. Mae'r prosiect ymchwil hwn, ffrwyth llafur 3 blynedd gan wyddonwyr mewn 17 o sefydliadau ledled y byd, gan gynnwys Prifysgol Aberystwyth, wedi dangos symudiadau systemig helaeth mewn mesuriadau, megis lleoliadau rhywogaethau a ffenoleg, ar raddfa gyffelyb neu'n fwy na'r rhai a welir ar y tir.

Y stori'n llawn: www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2013/08/title-139151-cy.html

NEWYDDION

# Haf llwyddiannus i'r Ganolfan Saesneg Ryngwladol

Cafodd y Ganolfan Saesneg Ryngwladol haf prysur a llwyddiannus, gyda dros 197 o fyfyrwyr ar ei chyrsiau, a 95% ohonynt yn symud ymlaen o'r Cwrs Cyn-sesiynol i gyrsiau gradd Aberystwyth. Roedd dysgwyr o'r Eidal ac Irac, Korea a Kazakhstan, Tsieina a'r Weriniaeth Tsiec yng ngharfan yr haf hwn.

Mae'r myfyrwyr Saesneg Cyffredinol eisoes wedi dychwelyd adref, gyda'u hatgofion o Aberystwyth yn yr haul. Gyda 94% yn nodi y byddent yn dychwelyd eu hunain, neu'n argymell y cwrs i ffrind, rydym yn gobeithio gweld llawer ohonynt eto.

Yn y cyfamser, mae'r myfyrwyr Cyn-sesiynol (82 i gyd) yn aros i ymuno â'n cymuned sy'n prysur dyfu o israddedigion ac uwchraddedigion rhyngwladol. Mae'r Ganolfan Saesneg Rhyngwladol yn hynod falch o'r gyfradd basio o 95% ar y Cwrs Cyn-sesiynol heriol, ac mae'n dymuno pob llwyddiant i'r myfyrwyr ar eu siwrne academaidd. Daeth tri myfyriwr cyn-sesiynol o Brasil drwy'r cynllun Gwyddoniaeth heb Ffiniau, ac maent wedi mwynhau eu hamser yn Aber hyd yma. Fel y dywedodd un ohonynt, Raul Peres Goes, "Mae popeth mor hyfryd! Dwi ddim am fynd nôl i Brasil!".

Enillodd Thanapat Pekanan (myfyriwr israddedig Gwleidyddiaeth Ryngwladol) o Wlad Thai, Wobr Rhagoriaeth Academaidd y Ganolfan Saesneg Ryngwladol yr haf hwn, ond dylid cymeradwyo pob myfyriwr a gwblhaodd y cwrs. Mae'r cwrs Cyn-sesiynol yn cynnig hyfforddiant dwys i ddysgu Saesneg a sgiliau academaidd, a'i ddiben yw i roi mantais i fyfyrwyr rhyngwladol. Serch hynny, fel y dywed Rachael Davey, Cyfarwyddwr newydd y Ganolfan: "Nid ar chwarae bach y mae gwneud gradd drwy iaith dramor ac mewn diwylliant academaidd dieithr. Mae'n bwysig ein bod yn parhau i gefnogi myfyrwyr yn ystod eu hastudiaethau".



*Llun Graddio Cyn-sesiynol, Medi 2013*

Cynigir cymorth iaith ac astudio parhaus i fyfyrwyr rhyngwladol trwy gydol y flwyddyn academaidd, drwy'r cwrs Arferion Astudio a'r cwrs Sgiliau Academaidd. Cynigiwn ystod o gyrsiau a gwasanaethau i wella profiad astudio'r myfyrwyr ar draws y Brifysgol. Mae ein cyrsiau yn datblygu arferion academaidd da drwy ddefnyddio technegau beirniadol ar gyfer ysgrifennu academaidd, cyfathrebu mewn seminarau, gweithio gyda darlithoedd, adolygu ac arholiadau a rheoli gwybodaeth.

Hefyd, mae tîm rheoli newydd y Ganolfan Saesneg Ryngwladol, Rachael Davey (Cyfarwyddwr y Ganolfan) a Sarah McKenna (Cydlynydd y Ganolfan) yn awyddus i gyfarfod â'r adrannau academaidd dros y misoedd nesaf i edrych ar ffyrdd pellach o gefnogi myfyrwyr rhyngwladol.

NEWYDDION O'R CYNADLEDDAU

# Diogelu cyflenwadau bwyd a dŵr yn Affrica

Cynhaliodd Prifysgol Aberystwyth gynhadledd ryngwladol o bwys ar wleidyddiaeth diogelu cyflenwadau bwyd a dŵr yn Affrica ar 18-20 Medi. Gwnaeth y gynhadledd ddod ag arbenigwyr at ei gilydd ym meysydd cysylltiadau rhyngwladol, ymchwil ar fwyd a dŵr, y gyfraith, y gwyddorau naturiol, daearyddiaeth, astudiaethau datblygu a diplomyddiaeth. Ymdriniodd ag ansicrwydd bwyd a dŵr yn Affrica ar amryw lefelau - byd-eang, rhyngwladol, cenedlaethol a lleol – o safbwynt yr ansicrwydd a grëwyd gan newid yn yr hinsawdd a gofynion gwleidyddiaeth. Roedd y gynhadledd bwysig hon yn ffrwyth cydweithio rhwng Sefydliad Coffa David Davies, Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, ac Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth , a Chonsortiwm Newid Hinsawdd Cymru.



*Newyn yn Ethiopia – ffynhonnell: USAID Africa Bureau*

Y stori'n llawn: www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2013/09/title-140202-cy.html

# Cyfoethogi dysgu ac addysgu

Cynhaliwyd cynhadledd bwysig arall yn y Brifysgol rhwng 18 ac 20 Medi a ddaeth ag academyddion ac ymarferwyr at ei gilydd i drafod a rhannu'r arfer gorau ar gyfer ennyn diddordeb dysgwyr a chyfoethogi dysgu. O dan y thema 'Pam ddylwn i newid fy ffordd o ddysgu? Ennyn diddordeb y dysgwyr a chyfoethogi'r dysgu,' daeth academyddion ac arbenigwyr sy'n darparu cefnogaeth ynghyd o bob rhan o'r Brifysgol i ystyried yr ymchwil ddiweddaraf a'r methodolegau yn ymwneud â'r thema ganolog, sef sut i ddal ati i wella'r dulliau a'r technolegau a ddefnyddir mewn dysgu yn yr oes sydd ohoni.

Y stori'n llawn: www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2013/09/title-140354-cy.html

# 'Hacio' gyda'r hwyr

Daeth mwy na 200 o ddatblygwyr meddalwedd o bob cwr o'r byd, gan gynnwys yr Ariannin a Malaysia i iOSDevUK a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth rhwng 3 a 5 Medi. Roedd y gynhadledd, a anelwyd at ddatblygwyr apiau iPhone ac iPad, yn cynnwys "hac" saith awr, o 5 y prynhawn tan ganol nos, gan roi cyfle i ddatblygwyr apiau i fynd ati i greu dyfeisiadau deallus gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf a allai gynnig atebion ymarferol i broblemau yn y byd go iawn.

Y stori'n llawn: www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2013/09/title-139862-cy.html

YR ADRAN YMCHWIL, BUSNES AC ARLOESI



Croeso i golofn gyntaf 'yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi' sydd yn rhoi trosolwg o'n gwasanaethau a diweddariad ar y newidiadau sydd yn weithredol ers 1af Awst.

Fel yr amlygwyd yn y rhifyn blaenorol mae'r Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi (www.aber.ac.uk/rbi) yn cyfuno'r gwasanaethau a ddarparwyd o'r blaen gan y Gwasanaethau Masnacheiddio ac Ymgynghori a'r Swyddfa Ymchwil.

Mae RB&I yn cynnig gwasanaethau datblygu a chymorth arbenigol ar gyfer gweithgareddau ymchwil a menter yn Aberystwyth, gan gynnwys hwyluso mentrau cydweithredol a masnachol.

Rydym yn dal i ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau i ymchwilwyr a chydweithwyr eraill, o gynorthwyo gyda cheisiadau am gyllid a chostio prosiectau, i gysylltu â phartneriaid allanol a masnachu mentrau.

Yn ogystal, mae ein gwasanaeth ymholiadau canolog a'n Tîm Datblygu Busnes yn darparu porth i sefydliadau allanol fanteisio ar y cyfoeth o gyfleoedd Cyfnewid Gwybodaeth yma yn Aberystwyth.

Mae'r adran yn darparu gwasanaethau yn y meysydd canlynol:

- Ymchwil rhyngddisgyblaethol rhagweithiol
- Datblygu Busnes a chysylltu gyda Busnesau
- Cyllid Ymchwil a Chyfnewid Gwybodaeth
- Contractau a Pholisïau RB&I
- Rheoli Prosiectau Ymchwil a Chyllid Ymchwil a Chyfnewid Gwybodaeth a Sicrhau Ansawdd
- FfRhy, Effaith a Monitro Ymchwil

## Cysylltu â ni:

Gallwch barhau i gysylltu â'r un bobl o fewn ein tîm i drafod ymholiadau ac i gael cymorth. Neu, yn y lle cyntaf, neu am negeseuon adrannol, defnyddiwch ein gwasanaeth ymholiadau canolog:

- Gwasanaeth ymholiadau canolog Ymchwil, Busnes ac Arloesi - drbi@aber.ac.uk – Estyniad: 2385
- Cyllid Ymchwil, Busnes ac Arloesi (y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer materion cyllidol) - rfostaff@aber.ac.uk - Estyniad: 8485

Mae croeso i chi gysylltu â'r Swyddog Datblygu Ymchwil perthnasol, sy'n gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf yr adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi ar gyfer eich Athrofa/Adran.

| Pwynt cyswllt athrofa | Enw | Ebost | Disgyblaeth |
|---|---|---|---|
| Athrofa Llenyddiaeth, Ieithoedd a'r Celfyddydau Creadigol<br>Athrofa Addysg, Datblygu Proffesiynol a Graddedigion | Dafydd Roberts | dir@aber.ac.uk | Celfyddydau a'r Dyniaethau |
| Athrofa Daearyddiaeth, Hanes a Gwleidyddiaeth<br>Athrofa Rheolaeth, y Gyfraith a Gwyddor Gwybodaeth | Jennifer Deaville | jfj@aber.ac.uk | Gwyddorau Cymdeithasol |
| Athrofa Mathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg<br>Athrofa'r Gwyddorau Dynol | Joanne Walker | jnw@aber.ac.uk | Gwyddorau |
| Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS)* | Helen Lloyd | hll@aber.ac.uk | *Swyddog Ymchwil IBERS – y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer tîm Datblygu Ymchwil IBERS* |

*Mae gan IBERS ei thîm Datblygu Ymchwil ei hun sy'n gweithio'n agos gyda'r Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi.

Edrychwn ymlaen at anfon rhagor o newyddion atoch dros y misoedd nesaf wrth i ni ddatblygu ein portffolio newydd o wasanaethau.

Cofion

**Gary Reed,** Cyfarwyddwr – Ymchwil, Busnes ac Arloesi

www.aber.ac.uk/rbi

## Ymchwil cam-drin yr henoed

Mae Sarah Wydall o Adran y Gyfraith a Throseddeg wedi ennill grant o £29,000 oddi wrth Swyddfa Comisiynydd Pobol Hŷn Cymru. Mae ei phrosiect 'Amddiffyn oedolion, cam-drin yn y cartref a throseddau casineb' yn astudiaeth Cymru-gyfan.

Mae'r ymchwil yn cael ei lywio gan ddwy astudiaeth ymchwil ddiweddar ar gam-drin yr henoed gan yr Athro Alan Clarke, yr Athro John Williams, Sarah a myfyriwr doethuriaeth (PhD) o Adran y Gyfraith a Throseddeg, Rebecca Boaler. Roedd un o'r astudiaethau hyn yn cynnwys cynnal ymchwil gweithredu cyfranogol gyda gwneuthurwyr polisi a chynrychiolwyr dioddefwyr. Ystyriai'r llall sut y gall henoed sy'n cael eu cam-drin fanteisio ar ddulliau sydd ar gael iddynt i gael cyfiawnder.

Mae'r astudiaeth newydd hon yn ceisio archwilio sut gall dulliau gwahanol ar gyfer ailgyfeirio ym maes amddiffyn oedolion ddylanwadu ar y ffordd y mae pobl trigain oed a hŷn yn cael manteisio ar ddulliau cyfiawnder. Bydd canfyddiadau'r astudiaeth yn cael eu cyflwyno i gyfarfod Cymru gyfan a fynychir gan y Comisiynwyr Heddlu a chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru yn ddiweddarach eleni. Bydd Rebecca Boaler a Jeremy Newman yn cynorthwyo Sarah â'r gwaith maes.



*Sarah Wydall*

## Rhaglen Digwyddiadau'r Hydref

Gellir dod o hyd i fanylion y digwyddiadau Ymchwil, Busnes ac Arloesi sydd ar y gweill, gan gynnwys y Caffi Ymchwil a 'Menter Mercher', ar y we: http://jump.aber.ac.uk/?mnml

YR ADRAN YMCHWIL, BUSNES AC ARLOESI

# Croeso i dîm newydd HPC Cymru Aberystwyth


Craig Kirkwood

Er mwyn llywio ymgysylltiad Aberystwyth â Chyfrifiadura Perfformiad Uchel (HPC) Cymru, rydym yn falch i groesawu dau gydweithiwr newydd i'r Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi. Swyddogaeth y tîm newydd sydd wedi'u lleoli yng Nghanolfan Ddelweddu'r Brifysgol ar gampws Penglais, yw cefnogi busnesau ac ymchwilwyr a'u cynorthwyo i fanteisio i'r eithaf ar gyfrifiadura perfformiad uchel.

Bydd Craig Kirkwood, Mentor Hyfforddi ac Estyn Allan HPC Cymru, yn canolbwyntio'n bennaf ar ymgysylltu â busnesau – a chanfod sut y gallai'r gwasanaethau cyfrifiadurol, yr ymgynghoriaeth a'r gefnogaeth, a'r sgiliau a hyfforddiant a gynigir gan HPC fod o fudd i'w sefydliad. Bydd canfod meysydd lle gellid o bosib gydweithio ag Aberystwyth a sefydliadau eraill yn rhan bwysig o'r swydd hon.

Gyda chefndir masnachol cryf, mae Craig wedi gweithio fel peiriannydd systemau, cyfarwyddwr creadigol, rheolwr a chyfarwyddwr cwmni yn Canberra, Sydney, Llundain ac Amsterdam, ac mae wedi gweithio mewn swyddi uwch gydag IBM, Semiconductor Cenedlaethol, Roland a CASE (Y Deyrnas Unedig). Ar ôl symud gyda'i deulu o Awstralia yn 2012, mae Craig wedi cwblhau MSc mewn Marchnata gyda'r Ysgol Rheolaeth a Busnes.

Mae Sylwia Grzegorek yn ymuno â'r tîm fel Cynorthwy-ydd Graddedigion HPC Cymru. Bydd Sylwia yn gweithio'n agos â chydweithwyr academaidd i gynyddu ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael gyda HPC a chefnogi unigolion i ymwneud yn fwy â darparwr rhwydwaith uwch-gyfrifiadura cenedlaethol Cymru. Yn wreiddiol o wlad Pwyl, fe gyflawnodd Sylwia ei graddau israddedig ac uwchraddedig ym Mhrifysgol Aberystwyth a bu'n gweithio tan yn ddiweddar gyda'r Gwasanaeth Gyrfaoedd, yn Swyddog Lleoliadau, yn cydlynu lleoliadau myfyrwyr sydd wedi gadael y Prosiect Addysg Uwch.


Sylwia Grzegorek

I gael rhagor o wybodaeth am y ffordd y gall HPC Cymru gynorthwyo i sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau ymchwil, gwneud y mwyaf o lwyddiant eich ymchwil, a hwyluso cydweithio â diwydiant a phartneriaid eraill i gynyddu potensial masnachol eich gwaith, cysylltwch â: Sylwia Grzegorek - syg2@aber.ac.uk / Estyniad: 8758.

Partneriaeth rhwng prifysgolion yng Nghymru yw HPC Cymru, wedi'i gyllido'n rhannol gan y Gronfa Datblygu Ranbarthol Ewropeaidd trwy Lywodraeth Cymru, gyda'r nod o sbarduno llwyddiant busnesau ac ymchwil, gan gynyddu sgiliau i wella economi wybodaeth Cymru, a chyflymu'r broses o ddarparu cynnyrch a gwasanaethau newydd fydd yn galluogi mantais gystadleuol. www.hpcwales.co.uk

# O Gynllun i ddilledyn mewn deuddydd!

Creu dilledyn o'r newydd mewn deuddydd oedd yr her a osodwyd mewn gweithdy newydd a gynhaliwyd gan yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu.

Datblygwyd y gweithdy 'Patrwm i Ddilledyn' ar y cyd â Chanolfan Sgiliau Cadarn, a than arweiniad y tiwtor profiadol Andrea Wiltshire a roddodd gyngor a chyfarwyddyd ar brosesau a thechnegau creadigol, llwyddodd i gynyddu hyder a sgiliau pawb oedd yno.

Nid oedd angen unrhyw brofiad blaenorol i gymryd rhan yn y gweithdy ac esboniodd Sara, a gymerodd ran yno, ei bod hi wedi "gwirioneddol fwynhau'r cwrs, roedd yn broffesiynol, yn hwyl ac roedd Andrea yn athrawes wych - yn amyneddgar ac yn cynnig llawer o gyngor. Roedd lefelau gallu pawb yn wahanol, ac roeddem i gyd yn dysgu oddi wrth ein gilydd. Fe greais i sgert A-line o batrwm a baratowyd ar y cwrs yn defnyddio fy mesuriadau i, ac mae'n ffitio! A minnau heb fod yn agos at beiriant gwnïo ers i mi fod yn yr ysgol, roedd yn deimlad arbennig gallu dweud 'Fi grëodd honna!"

Os oes diddordeb gennych chi mewn ymgymryd â her 'Patrwm i Ddilledyn', cysylltwch â Non Lavaro i gael manylion rhaglen cyrsiau'r hydref - skillscentre@aber.ac.uk
www.aber.ac.uk/training

# Materion Eiddo Deallusol

Gyda dechrau'r flwyddyn academaidd newydd, mae'n amserol rhoi gwybod i'n cydweithwyr bod modd dod o hyd i wybodaeth am y polisi eiddo deallusol diweddaraf ar weddalennau Adnoddau Dynol, ewch i http://jump.aber.ac.uk/?hlml


Mae'r polisi cyffredin hwn yn rhan o'r cydweithio cynyddol rhwng Prifysgolion Aberystwyth a Bangor ar faterion Eiddo Deallusol, ac mae'n adeiladu ar weithgareddau sy'n anelu at ddatblygu a gwella gallu'r ddwy brifysgol, yn unigol ac ar y cyd, yn y maes hwn.

Mae'r broses o ddatblygu polisi ar y cyd, a gyflawnwyd drwy'r Gynghrair Strategol, yn adeiladu ar ein gwaith ymchwil cydweithredol helaeth a'n prosiectau cyfnewid gwybodaeth i gynyddu effaith yr ymchwil ac i elwa'n fasnachol ar ymchwil yn y ddau sefydliad. Hefyd, mae'r polisi ar ei newydd wedd yn adlewyrchu'n well ein hagendâu ar gyfnewid gwybodaeth ac elwa ar ymchwil.

Os oes unrhyw gwestiynau gennych ynglŷn â'r ffordd mae'r polisi'n berthnasol i'ch gwaith chi, neu os hoffech wybodaeth bellach ar yr ymarfer gorau wrth weithio gyda chwmnïau/unigolion allanol, byddai cydweithwyr YB&A yn fwy na pharod i ateb eich cwestiynau ac i gynnig cyfarwyddyd a chyngor pellach (drbi@aber.ac.uk / Est: 2385



ERTHYGL NODWEDD



# Organau, Pensiynau a Chymell y Cymry

Ar 1 Medi cychwynnodd Mark Whitehead o'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ar brosiect, a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC), yn archwilio i rôl y gwyddorau seicolegol a niwrolegol wrth lunio polisïau cyhoeddus. Enw'r prosiect, sy'n cael ei ariannu fel rhan o raglen 'Trawsffurfio Gwyddor Gymdeithasol' yr ESRC, yw 'Negotiating Neuroliberalism: Changing Behaviours, Values and Beliefs.' Fel rhan o'r prosiect hwn bydd Mark yn gweithio ochr yn ochr â Rachel Howell a Rhys Jones (hefyd o'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear), Rachel Lilley (Ymlaen Ceredigion), a Jessica Pykett (Prifysgol Birmingham). Isod, mae'r tîm ymchwil hwn yn ystyried datblygiadau polisi diweddar yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig sy'n berthnasol i'w prosiect. I gael gwybod rhagor am y prosiect hwn ewch i: http://changingbehaviours.wordpress.com/



*Yr Athro Mark Whitehead*

Yn gynnar ym mis Gorffennaf, aeth Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) drwy'r Cynulliad Cenedlaethol, sy'n golygu mai Cymru yw'r wlad gyntaf ym Mhrydain i fabwysiadu system 'cydsyniad tybiedig' ar gyfer trawsblannu organau. Ar 1 Medi seliwyd y Bil yn swyddogol gan y Prif Weinidog, Carwyn Jones, a bydd yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2015.

Mae cydsyniad tybiedig yn golygu y cymerir yn ganiataol, oni nodir yn wahanol, fod pobl dros 18 oed (sydd wedi bod yn byw yng Nghymru am dros 12 mis) yn dymuno rhoi eu horganau ar ôl iddynt farw, heb fod angen iddynt gofrestru'n ffurfiol ar Gofrestr Rhoddwyr Organau y Deyrnas Unedig.

Heb os, dylid dathlu Bil Trawsblannu Dynol (Cymru): bydd yn arwain at gael llawer mwy o bobl ar y Gofrestr Rhoddwyr Organau yng Nghymru (fel y mae systemau 'cydsyniad tybiedig' wedi gwneud mewn gwledydd eraill sydd wedi eu cyflwyno), ac fe fydd yn achub bywydau. Ond mae arwyddocâd hanesyddol i'r bil, nid yn unig oherwydd yr holl fywydau y bydd yn eu hachub, ond oherwydd mai dyma'r agwedd a drafodir fwyaf o'r newid ehangach mewn systemau llywodraethu yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.

Nodweddir y newid hwn gan y defnydd cynyddol o fewnwelediadau seicolegol ynghylch natur ymddygiad dynol wrth lunio polisïau cyhoeddus. Mae'r ffyrdd newydd hyn o lywodraethu, a elwir yn gyffredin yn bolisïau "cymell", yn seiliedig ar egwyddorion lled-dadol, neu'r syniad y dylai llywodraethau ddefnyddio polisïau sy'n ei gwneud yn haws i bobl weithredu mewn ffyrdd sy'n cefnogi eu buddiannau eu hunain, a rhai'r cyhoedd yn ehangach.

Er mwyn gwerthfawrogi goblygiadau'r datblygiadau polisi newydd hyn, mae'n bwysig deall natur y polisïau cymell. Mae polisïau cymell yn deillio o gangen benodol o economeg a elwir yn economeg ymddygiadol. Mae economegwyr ymddygiadol yn dadlau, mewn cyferbyniad â theori economaidd gonfensiynol, fod ymddygiad dynol nid yn unig yn seiliedig ar feddwl yn rhesymegol, ond hefyd i raddau helaeth ar reddfau direswm. I fynegi'r peth mewn ffordd arall, mae economegwyr ymddygiadol yn canolbwyntio llai ar y syniad delfrydoledig o Homo Economicus, ac yn lle hynny'n mabwysiadau model Homo Simpson o ymddygiad dynol. O ddychwelyd at yr enghraifft o roi organau, gallwn weld sut mae polisïau cymell yn cymhwyso'r mewnwelediadau hyn i ymddygiad dynol.

Er bod arolygon yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl yn dymuno rhoi eu horganau wedi iddynt farw, ychydig iawn sy'n cofrestru ar gofrestrau rhoddwyr organau ffurfiol. Mae'r rhesymau am hyn yn gymhleth, ond mae'n amlwg eu bod yn gysylltiedig â'r ffaith bod pobl yn deall pwysigrwydd rhoi organau yn rhesymegol, ond nad ydynt, ar lefel emosiynol, yn hoffi meddwl am farwolaeth, heb sôn am fanylu ar ba organau a meinweoedd y gellir eu tynnu o'u cyrff. Trwy fabwysiadau system cydsyniad tybiedig, mae llywodraethau yn tynnu'r rhwystrau seicolegol ac ymarferol sy'n atal pobl rhag cofrestru i roi eu horganau: maent yn rhagdybio eich bod am roi eich organau oni bai eich bod yn optio allan.

Y tu hwnt i roi organau, mae polisïau cymell i'w cael mewn ystod o feysydd polisi erbyn hyn. Mae'r rhagosodiad ar gyfer cynlluniau pensiwn cwmnïau yn y DU wedi newid, fel eu bod nawr yn tybio bod aelodau staff yn dymuno ymrestru. Mae yna gynlluniau newydd hefyd i newid y rhagosodiad i gael mynediad yn y cartref i bornograffi ar y rhyngrwyd, lle bydd rhaid optio i mewn i gael mynediad i safleoedd o'r fath. Ond mae polisïau cymell yn fwy na newid rhagosodiadau yn unig.

Er ei bod yn ymddangos fel pe baent yn cynnig llawer, mae angen gofal hefyd wrth hyrwyddo polisïau cymell. Mae llawer o bolisïau cymell yn seiliedig ar fewnwelediadau i natur isymwybodol ymddygiad dynol. Oherwydd hyn, rhaid gofyn cwestiynau bob amser ynghylch i ba raddau y mae pobl yn ymwybodol o'r gweithgareddau cymell sy'n effeithio arnynt, ac i ba raddau y maent yn cael digon o gyfle i optio allan.

Codwyd cwestiynau hefyd am effeithiolrwydd polisïau cymell yn y tymor hir. Er ei bod yn ymddangos fel pe bai polisïau cymell yn effeithiol o safbwynt newid ymddygiad yn y tymor byr, mae'n ymddangos bod mynd i'r afael â gwerthoedd pobl yn hanfodol i sicrhau newid ymddygiad yn y tymor hirach. Yn ogystal, mae yna berygl gwirioneddol y gall polisïau cymell fynd â grym allan o ddwylo'r unigolyn. Wedi'r cwbl, mae'n aml yn anodd gwybod pwy sy'n pennu normau ymddygiadol, a sut y gellir eu dal yn atebol.

NEWYDDION Y MYFYRWYR

# AberSU yn Ailgychwyn



Mae'n bleser ysgrifennu'r erthygl hon yn rhinwedd fy swydd fel Llywydd Undeb y Myfyrwyr. Pan gyrhaeddais yma yn ôl yn 2009, freuddwydiais i erioed y byddwn i'n mynd o chwarae ar Gae'r Ficerdy i arwain mudiad y myfyrwyr yma yn Aberystwyth. Y llynedd llwyddodd Undeb y Myfyrwyr i gyflwyno ffynonellau newydd o incwm drwy gyflwyno Starbucks a Stone Willy's, rhywbeth a werthfawrogwyd gan y myfyrwyr a'r staff fel ei gilydd. Wrth inni symud i'r semester newydd, mae unedau masnachol newydd yn cael eu hagor, felly gwyliwch am y datblygiadau newydd yn yr adeilad.

Gyda'r ffynonellau newydd hyn o incwm, gallwn ddechrau rhoi arian yn ôl i'n hochr elusennol a dechrau creu gwell cyfleoedd i'n myfyrwyr, gan gynnwys mwy o gymorth i'n Hundeb Gweithgareddau, a chael Cynghorwr newydd i'n Canolfan Cyngor a Chynrychiolaeth. Rydym yn edrych ymlaen at greu prosiectau gwirfoddoli cyffrous newydd i'n myfyrwyr, ac ar ôl inni benodi Swyddog Ymgyrchoedd a Democratiaeth, byddwn yn gallu sicrhau llais i'n myfyrwyr ar y materion sydd o bwys iddyn nhw. Mae gan Undeb y Myfyrwyr ddyfodol disglair, ac edrychaf ymlaen at gydweithio â'm cyd Swyddogion yn yr Undeb, ac â staff yr Undeb, i ddarparu'r dyfodol disglair hwnnw i'n myfyrwyr.

**Mae'n dda gennyf gael cyflwyno fy nghyd Swyddogion ar gyfer 2013/14:**



**Laura Dickens** yn dychwelyd am ei hail dymor yn swydd y Swyddog Lles. Mae Laura'n hanu o Northampton, ac astudiodd Wleidyddiaeth Ryngwladol. Bydd Laura yn datblygu'r ddarpariaeth lles i'r myfyrwyr, gan gynnwys meysydd megis darpariaeth am iechyd meddwl, materion tai myfyrwyr, a sicrhau bod cymorth yn haws i'w gael



**Grace Burton** a etholwyd yn Swyddog Addysg. Astudiodd Grace, sy'n hanu o Hampshire, Wleidyddiaeth Ryngwladol. Bydd Grace yn cynrychioli'r myfyrwyr ar holl faterion addysg ac yn cydweithio â Chynrychiolwyr yr Athrofeydd.



**Liv Prewett** yw ein Swyddog Gweithgareddau. Daw Liv o Gaerdydd yn wreiddiol, ac astudiodd Hanes ac Addysg. Bydd Liv yn gweithio i greu cyfleoedd i fyfyrwyr i gymryd rhan mewn chwaraeon, cymdeithasau a gwirfoddoli.



**Mared Ifan** yw ein Swyddog Materion Cymraeg a Llywydd UMCA. Un o Gaerfyrddin yw Mared, ac astudiodd y Gymraeg. Mae ei chylch gorchwyl yn cynnwys cynrychioli'r myfyrwyr Cymraeg a threfnu gweithgareddau i'r gymuned Gymraeg.

**Ioan Rhys Evans**

Llywydd, Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth

## Cofrestru awtomatig ar bensiwn

Fel y cofiwch o bosibl o'r hysbysiad ym mis Mai, cafwyd newid mewn deddfwriaeth yn ddiweddar sy'n golygu bod y llywodraeth yn ei wneud yn orfodol i gyflogwyr gofrestru eu gweithwyr ar gynllun pensiwn yn y gweithle er mwyn helpu pobl i gynilo mwy at eu hymddeoliad. Gelwir hyn yn gofrestru awtomatig.

Mae cofrestru awtomatig yn gymwys i'r cyflogeion hynny nad ydyn nhw eisoes mewn cynllun pensiwn yn y gweithle sy'n ennill dros £9,440 y flwyddyn (£787 y mis); sydd yn 22 oed neu fwy; ac sydd o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Ym Mhrifysgol Aberystwyth daeth cofrestru awtomatig i rym ar 1 Awst 2013. Hwn oedd ein dyddiad cofrestru awtomatig a ohiriwyd, a elwir yn 'ddyddiad oedi'.

Mae rhagor o wybodaeth am gofrestru awtomatig ar gael ar wefan AD drwy ddilyn y ddolen hon:
www.aber.ac.uk/cy/hr/auto-enrolment.

## Datblygu Staff ac Adolygu Perfformiad (DSAP)

Nodwch y dylai'r holl staff, mewn cydweithrediad â'u rheolwyr llinell, nawr fod yn cynnal eu Hadolygiad Datblygu Staff ac Adolygu Perfformiad blynyddol.

Ceir manylion llawn am y broses DSAP a'r system arlein ar wefan y Brifysgol drwy'r ddolen hon: www.aber.ac.uk/cy/sdpr.

## Diwrnod Cenedlaethol Ymwybyddiaeth Straen

**Nodyn i'r Dyddiadur:** Cynhelir ein hail lwybr lles ar gyfer Diwrnod Cenedlaethol Ymwybyddiaeth Straen ar ddydd Mercher, 6 Tachwedd 2013 ledled y campws. Mae'r diwrnod hwn yn gyfle i ni gymryd camau cadarnhaol i leihau ac atal straen a hyrwyddo lles. Y llynedd, cyfranogodd sawl adran, gan gynnwys Seicoleg, Adnoddau Dynol, Cymorth i Fyfyrwyr, y Ganolfan Chwaraeon a llawer mwy. Cadwch lygad ar y Bwletin Wythnosol a'r hysbysfyrddau am gyhoeddiadau pellach. Os oes gan eich adran ddiddordeb mewn cymryd rhan, cysylltwch â Jo Strong ar jgs@aber.ac.uk.

# PoblAber

Efallai y bydd rhai ohonoch yn ymwybodol fod y Brifysgol yn y broses o weithredu modiwlau 'Pobl' meddalwedd ABW (Agresso Business World). Bydd hyn yn dod â systemau Adnoddau Dynol, Cyflogau a Chyllid ynghyd er mwyn ei gwneud yn sylweddol haws i gyrchu gwybodaeth reoli ansawdd ar draws y Brifysgol.

Gall aelodau staff unigol fynd i'w cofnodion eu hunain yn haws trwy gyfrwng gwell system hunan-wasanaeth sy'n caniatáu iddynt gael ffurflenni electronig a gwneud cais arlein am gyfnodau gwyliau. Daw'r system i rym yn gynnar yn 2014.

Bydd tîm y prosiect yn cynnal sesiynau 'drws agored' dros y misoedd nesaf er mwyn i bobl weld y system ar waith cyn iddynt ddechrau hyfforddi defnyddwyr a chyflwyno'r system ledled y Brifysgol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y system neu os hoffech wybod mwy e-bostiwch aberpeople@aber.ac.uk.

## Clwb Merched Prifysgol Aberystwyth

www.aber.ac.uk/cy/womens-club

Sefydlwyd y Clwb Menywod nifer o flynyddoedd yn ôl fel cyfle i wragedd staff y Brifysgol ddod i adnabod ei gilydd a chymryd rhan ym mywyd y Brifysgol. Mae pethau wedi newid erbyn hyn a bellach mae aelodau'r clwb yn cynnwys menywod sy'n gweithio yn y Brifysgol eu hunain, neu sydd wedi gwneud yn y gorffennol, yn ogystal â gwragedd a phartneriaid. Rydym yn grŵp cyfeillgar a chroesawgar a byddem wrth ein bodd yn croesawu unrhyw aelodau newydd sydd eisiau ymuno â ni. Rydym yn cwrdd o leiaf unwaith y mis i wrando ar gyflwyniad gan siaradwr gwadd, gyda chyfle am luniaeth a sgwrs ar ôl y cyflwyniad. Mae ein rhaglen o gyflwyniadau yn amrywiol a diddorol, ac maent yn ymdrin â nifer o bynciau. Rydym hefyd yn trefnu cyfarfod cyffredinol blynyddol, cinio a gwibdaith bob blwyddyn.


**Am fwy o wybodaeth am sut i fod yn aelod ewch i:**
www.aber.ac.uk/en/womens-club/membership

£5 y flwyddyn yw'r tal aelodaeth ar gyfer y flwyddyn academaidd yn llawn, yn daladwy i **Clwb Merched Prifysgol Aberystwyth**. Dylid anfon y siec at:
Hazel Binding, Wileirog Uchaf Farmhouse, Borth SY24 5NY.

**Digwyddiadau'r sesiwn nesaf:**

| | |
|---|---|
| **Nos Wener 11 Hydref 2013** | Professor Michael Hambrey; 'Antarctica and climate change' |
| **Nos Wener 8 Tachwedd 2013** | Mr David Jenkins; 'Aberystwyth harbour and the lifeboat'. |
| **Nos Wener 6 Rhagfyr 2013** | AberOpera; 'Songs duets and choruses'. |
| **Nos Wener 10 Ionawr 2014** | Mr Illtyd Griffiths; 'Teeth through the ages'. |
| **Nos Wener 14 Chwefror 2014** | Mr Elgan Davies; 'The Old College – original and still the best'. |
| **Nos Wener 14 Mawrth 2014** | Mr Peter Lord; 'Art and social crisis: Welsh painting between the two world wars'. |
| *Cynhelir y cyfarfodydd uchod yn Ystafell Seddon , Yr Hen Goleg am 7.30 y.h* | |
| **Nos Wener 9 Mai 2014** | Cyfarfod Blynyddol a Swper Bwffe |

# Penodiadau



### YR ADRAN GYFRIFIADUREG

Penodwyd **Robert Hoehndorf** (dde) a **Ren Diao** (chwith) yn Gymrodyr Ymchwil ym maes Uwch-Resymeg.

Astudiodd Robert Hoehndorf gyfrifiadureg a logisteg ac athroniaeth gwyddoniaeth ym Mhrifysgol Leipzig. Cwblhaodd ei ddoethuriaeth yn 2009 yn Athrofa Anthropoleg Esblygol Max Planck, Prifysgol Leipzig, gan weithio ar y rhyngweithredu rhwng ontolegau mewn bioleg. Mae'n ymuno ag Aberystwyth ar ôl gweithio fel cydymaith ymchwil ym Mhrifysgol Caergrawnt.

Mae Ren Diao, a raddiodd o Brifysgol Caergrawnt a Phrifysgol Birmingham, wedi bod yn fyfyriwr doethuriaeth a chydymaith ymchwil rhan-amser gyda'r adran. Mae meysydd ymchwil Ren yn cynnwys bras resymeg, dewis nodweddion, ac algorithmau optimeiddio byd-eang.

# Penodiad i Banel Ymgynghorol Llywodraeth Cymru

Penodwyd **Yr Athro John Williams** o Adran y Gyfraith a Throseddeg ar banel ymgynghorol Llywodraeth Cymru ar ddiogelu a chefnogi oedolion sy'n agored i niwed, gyda chyfrifoldeb arbennig am fframwaith cyfreithiol amddiffyn oedolion a Gorchmynion Amddiffyn a Chefnogi Oedolion. Roedd John yn ymgynghorydd deddfwriaethol i'r Cynulliad Cenedlaethol wrth archwilio Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

# Ymddeoliad

*Bon Voyage!*

Gyda chalon drom, cyhoeddwn fod **Belinda Marking** wedi ymddeol ar 30 Awst 2013. Ers ymuno â'r Ysgol Gelf yn 1998, mae Belinda wedi bod yn weithiwr caled a chwbl ymroddedig. Mae bob amser wedi dangos diddordeb byw yn ein pwnc, ein hymdrechion unigol, ac yn lles a llwyddiant yr Ysgol. Mae wedi ysgwyddo llwyth gwaith sylweddol – ymhell y tu hwnt i alwad dyletswydd – er mwyn cefnogi ein tîm bach. O las-fyfyriwr i Bennaeth yr Ysgol, roedd modd dibynnu ar Belinda bob amser i ddweud wrthym ble roedd angen i ni fod, beth roedd angen i ni ei wneud, pam, pryd, sut a gyda phwy! Byddaf yn gweld ei heisiau yn fawr iawn. Does dim dwywaith bod llwyddiant yr Ysgol dros y ddegawd ddiwethaf wedi dibynnu'n helaeth ar ei chyfraniad. Hoffai fy nghydweithwyr a minnau ddymuno ymddeoliad hir, hapus ac iach i Belinda a Richard yn Ffrainc.



*Er gwaethaf ambell fân anhap roedd Belinda a Richard yn edrych ymlaen yn arw at eu bywyd newydd yn Ffrainc, ac yn awyddus i ymdoddi i'r gymuned leol.*

*"Paid â phoeni Richard, fe wna i ddod i ben â'r baguettes 'ma yn y man", meddai Belinda, "A ta beth, rwyt ti'n dal yn gallu gweld digon i yrru."*

*Yn y cyfamser canolbwyntiodd Richard ar falansio'r nionyn olaf.*

**Yr Athro Robert Meyrick,** Pennaeth yr Ysgol

Ymddeolodd **Tegid Edwards**, Pennaeth Gweithrediadau a Systemau Ariannol, ar ddiwedd mis Gorffennaf bron 32 mlynedd yn union wedi iddo ymuno â'r Brifysgol yn 1981. Bydd ei gydweithwyr yn y Swyddfa ac ar draws y Brifysgol yn gweld ei eisiau, ac maent yn dymuno ymddeoliad hir a hapus iddo.



# Marwolaethau

**David Causton 1939 - 2013**



Ymunodd Dr Causton â Phrifysgol Aberystwyth yn 1970 fel darlithydd mewn Botaneg. Roedd yn raddedig o Brifysgol Leeds lle bu'n astudio Amaethyddiaeth, ac aeth ymlaen i astudio yn Imperial College (Prifysgol Llundain) cyn cwblhau ei ddoethuriaeth yma yn Aberystwyth yn 1967.

Cyn dychwelyd i Aberystwyth yn 1970 bu'n gweithio fel Swyddog Gwyddonol yn Adran Ffisioleg Planhigion yng nghanolfan ymchwil East Malling ac yna fel Uwch Swyddog Gwyddonol yn adran Ystadegau Cangen Ymchwil y Comisiwn Coedwigaeth yn Roslin, yr Alban.

Ymddeolodd Dr Causton yn 1997 ond parhaodd i weithio fel darlithydd rhan-amser tan fis Mai eleni.

**Tony Landeg (1943-2013)**

Bu Tony Landeg yn gweithio yn Swyddfa Gyllid y Brifysgol o 1986 tan ei ymddeoliad yn 2008. Dechreuodd fel Pennaeth y Swyddfa Incwm, ac yn ddiweddarach bu'n gyfrifol am yr Adran Grantiau Ymchwil a Chontractau, yn ogystal â gweithredu fel cyswllt y Swyddfa Gyllid â meysydd eraill megis Canolfan y Celfyddydau a'r Neuaddau Preswyl. Yn aelod o staff uchel ei barch, roedd modd dibynnu arno ym mhob sefyllfa. Ar ôl y tân yn neuaddau glan y môr yn 1998, chwaraeodd ran flaenllaw nid yn unig wrth ddatrys y problemau uniongyrchol oedd yn wynebu'r myfyrwyr, ond hefyd yn ystod y trafodaethau gyda'r yswirwyr ynghylch ailadeiladu'r neuaddau. Bydd colled fawr ar ei ôl.

POBL ABER

# Dod i nabod...

*Mae Dod i nabod yn eitem newydd lle byddwn yn canolbwyntio ar aelod o staff a'r rôl y maent yn ei gyflawni. Y rhifyn hwn, siaradom ag Esther Eckley o dîm Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus y Brifysgol.*



Esther Eckley

**Dywedwch ychydig am eich hun:** Teitl fy swydd yw Swyddog Ymgyrchoedd y Wasg a'r Cyfryngau ac rwy'n gweithio rhan-amser o ddydd Llun i ddydd Mercher. Graddiais mewn cysylltiadau cyhoeddus o Brifysgol Bournemouth yn 1999, ac rwyf wedi gweithio yn y diwydiant cyfathrebu byth oddi ar hynny. Symudais gyda fy ngŵr o Gaerdydd i Geredigion tua chwe blynedd yn ôl.

**Dywedwch ychydig am eich rôl:** Fy rôl yw sicrhau sylw i'r Brifysgol yn y wasg a'r cyfryngau, dyfeisio ymgyrchoedd cyfathrebu ar gyfer prosiectau penodol ac ysgrifennu datganiadau i'r wasg a chopi ar gyfer y wefan. Rwyf ar hyn o bryd yn ysgrifennu copi i'r wefan ynglŷn â rhai o astudiaethau achos Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil y Brifysgol, fel bod darpar fyfyrwyr, athrawon a phobl sydd â diddordeb yn ein hymchwil, yn deall y gwaith rydym yn ei wneud. Elfen arall o'm gwaith yw CADWYN – system a ddefnyddiwn i hyrwyddo gwaith ein harbenigwyr a'u harbenigeddau i'r cyfryngau.

**Allech chi esbonio beth yw CADWYN a sut mae'n gweithio?** Bob wythnos, rwy'n cysylltu â'r Penaethiaid Adran, Rheolwyr yr Athrofeydd ac unigolion eraill, i restru eitemau newyddion sydd ar y gweill, dyddiadau hanesyddol neu ddiwrnodau rhyngwladol, ac i wahodd unrhyw arbenigwyr sydd am rannu eu sylwadau i gysylltu â mi. Mae rhagweld y themâu fydd yn cael sylw yn y wasg a'r cyfryngau yn ffordd ardderchog o sicrhau cyfweliadau yn gynnar.

**A yw CADWYN yn llwyddiannus hyd yma?** Mae CADWYN yn boblogaidd iawn yn y cyfryngau gan eu bod yn ei gael yn hynod ddefnyddiol wrth chwilio am arbenigwyr i wneud sylwadau ar y materion o bwys yn y newyddion. Mae'r cyfweliadau diweddaraf wedi bod ynglŷn â'r argyfwng yn Syria gyda Dr Jenny Mathers yn cael ei chyfweld ar raglenni Radio Wales a BBC Radio 5 Live. Mae'r cyfweliadau eraill sydd wedi deillio o CADWYN yn cynnwys: Dr Steven Thompson yn cael ei gyfweld ynghylch budd-daliadau mamolaeth, yr Athro Richard Marggraf Turley yn siarad am 200 mlwyddiant *Pride and Prejudice* a Dr Russell Davies yn cael ei gyfweld ynghylch y drefn Glirio.

**Pan nad yn gweithio, beth rydych chi'n treulio eich amser yn ei wneud?** Rwy'n fam i ddau o blant, felly mae hynny yn fy nghadw'n brysur! Rwyf hefyd yn peintio ac wedi gwneud ers tua saith mlynedd bellach. Rwy'n brysur yn gweithio tuag at arddangosfa yn Llundain ym mis Rhagfyr, felly mae pob awr sbâr yn cael ei wario yn peintio yn yr atig ar hyn o bryd. Dwi hefyd yn rhedeg busnes gyda ffrind yn gwneud bagiau allan o hen hwyliau yn ogystal â phosteri a chardiau.

Os hoffech dderbyn e-byst CADWYN, os oes gennych unrhyw syniadau, neu os hoffech drafod unrhyw fater ymhellach gydag Esther, cysylltwch â hi ar ese6@aber.ac.uk / 01970 621571.

# Etholiad arlywyddol

Etholwyd **yr Athro David Trotter**, Pennaeth Adran Ieithoedd Ewropeaidd, yn Llywydd y *Société de Linguistique Romane* ar gyfer 2013-16.



Yr Athro David Trotter

Sefydlwyd y *Société de Linguistique Romane* (SLiR) yn 1924. Hon yw'r gymdeithas ddysgedig ryngwladol bwysicaf a mwyaf ei bri sydd yn ymwneud ag ieithyddiaeth ac ieitheg yr ieithoedd Romáwns ac mae iddi aelodaeth fyd-eang.

Yr Athro Trotter yw'r pumed-Llywydd-ar-hugain, a'r ail academydd yn unig o Brydain i dderbyn yr anrhydedd.

# Cyduno Celf a'r Gwyddorau


Cafwyd trafodaethau cyffrous ac arloesol ar newid yn yr hinsawdd mewn symposiwm cydweithredol a drefnwyd gan yr Ysgol Gelf, Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, a Chanolfan Celfyddydau Aberystwyth ym mis Mehefin. Daeth rhyw hanner cant o academyddion ac ymarferwyr at ei gilydd o wledydd Prydain a'r tu hwnt i'r symposiwm 'Deialogau Hinsawdd y Dyfodol' i drafod ymchwil a phrosiectau cymunedol sy'n croesi'r ffiniau traddodiadol rhwng disgyblaethau wrth ymateb i'r ddadl bwysig hon. Rhoddwyd cyflwyniadau llafar a chyflwyniadau poster yn ogystal â thrafodaethau panel, yn ystyried manteision gwaith cydweithredol rhwng celf a'r gwyddorau ym maes addysg, yn ogystal ag edrych ar sut mae newid yn yr hinsawdd yn cael ei gynrychioli mewn gwahanol destunau hanesyddol, ffilmiau a llenyddiaeth. Daeth y diwrnod i ben ag arddangosfa o gelf a darlleniadau barddoniaeth ar newid yn yr hinsawdd - diweddglo perffaith i ddiwrnod a wnaeth ysbrydoli a phrocio'r meddwl.

Gellir gweld crynodebau a dogfennau eraill (gan gynnwys fideos o'r cyflwyniadau ar lafar a'r trafodaethau panel) yn:

http://cargocollective.com/artscienceclimatechange/Future-Climate-Dialogues-Video

Mae adolygiad o'r symposiwm i'w weld yn:

www.theatre-wales.co.uk/reviews/reviews_details.asp?reviewID=3018







## DIGWYDDIADUR

### ARDDANGOSFEYDD CELF

**14 Hydref - 15 Tachwedd 2013**

## Erich Retzlaff: Volksfotograf

Ffotograffau gan Retzlaff (1899-1993) o Gasgliad yr Ysgol Gelf ac ar fenthyg oddi wrth Münchner Stadtmuseum, Yr Almaen



Ilse Retzlaff (1913-1970), *canol 1930au*

## Dick Whall

Wedi ymddeol o fod yn Bennaeth Celfyddyd Gain ym Mhrifysgol Coventry bellach, mae Dick wedi arddangos ei waith yn eang ledled y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol ers pum degawd, ac mae gweithiau ganddo mewn sawl casgliad cyhoeddus a phreifat.



Presently Absent in an English Country Garden. *Llun â phensel ar bapur cetris gyda border wedi'i raddnodi sy'n cynnwys gludwaith, 5.05.2012–23.08.2013*

**25 Tachwedd 2013 – 7 Chwefror 2014**

## Sense of Soane



Grand Tour: In Search of Soane (after Gandy) *2012. Tryloywder ar LED Blwch golau, 106.6cm (u x 182.4cm (ll)*

Ymateb Cyfoes i etifeddiaeth bensaernïol Sir John Soane gan Emily Allchurch, Anne Desmet, Catrin Huber

## Claudia Williams: An Intimate Acquaintance

Gwaith i ddathlu cyhoeddi monograff ar yr artist gan Harry Heuser a'r Athro Robert Meyrick.



*Claudia Williams* Le Petit Déjeuner. *Olew ar ganfas, 92 x 122 cm (Casgliad Preifat)*

DIGWYDDIADUR

# Tymor yr Hydref prysur iawn i Ganolfan y Celfyddydau

Wrth i'r nosweithiau ymestyn mae digonedd o bethau'n digwydd yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth i'ch diddanu ac i'ch cadw'n gynnes gyda'r nosweithiau oer.

Mae elfen shakespearaidd gref yn amlwg y tymor hwn gyda chynyrchiadau megis *Twelfth Night* a *Merchant of Venice* yn y theatr yn ogystal â dolenni byw yn y sinema i gynyrchiadau *Othello* ac *Hamlet* gan Theatr Genedlaethol Lloegr ac i gynhyrchiad *Richard II* gan gwmni'r Royal Shakespeare gyda David Tennant hefyd. Mae'r elfen shakespearaidd yn parhau yn ein rhaglen ddawns gyda chyfuniad newydd o ddawns a theatr yn *'Mac//beth'* sy'n cynnwys cyfieithiad Cymraeg newydd gan Mererid Hopwood, a chyffyrddiadau mewn Pwyleg a Hebraeg; a bydd Ballet Cymru yn perfformio *Romeo a Juliet*. Mae perfformiadau dawns eraill a fydd yn dychwelyd eleni eto yn cynnwys cwmni trawiadol Jasmin Vardimon a'r enwog *Earthfall Dance*.

Croesewir Bellowhead a'u sioe fyw wych yn ôl i'r Ganolfan yn rhan o'n rhaglen gerddoriaeth fyw, a bydd cyfle hefyd i weld artistiaid Womex 2013 ochr yn ochr â cherddorion Cymreig ar y daith *Horizons* sy'yn cynnwys *Les Tambours de Brazza* o Ganolbarth Affrica. Ar ochr arall y byd cerddorol, bydd Opera Canolbarth Cymru yn nodi canmlwyddiant Benjamin Britten trwy lwyfannu ei opera ddigri '*Albert Herring*'. Mae yna arlwy comedi gwych yn cynnwys Jimmy Carr, Reginald D Hunter, Ardal O'Hanlon, Milton Jones, Alan Davies a Paul Merton a'i Improv Chums. Bydd digonedd o bethau i'r teulu i gyd fwynhau megis *'Hairy Maclary'* a *'The Hare and the Tortoise'.*

Yn Oriel 1 bydd yr arddangosfeydd yn cynnwys *Reflections on the Palestinian Landscape* gan James Morris a gwaith newydd gan un o'r arlunwyr uchaf ei pharch yng Nghymru, Shani Rhys James. Croesewir arddangosfa'r British Wildlife Photography Award yn ôl hefyd yn Oriel 2, a fydd yn gartref hefyd i arddangosfa o bosteri ffilmiau rhyngwladol yn dathlu'r Golden Age of British Horror yn rhan o Abertoir, sef Gwŷl Ryngwladol Ffilmiau Arswyd Cymru.


*Bellowhead*

Rhaglen Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth o gelfyddydau ac addysg gymunedol yw'r fwyaf o'i math yng Nghymru. Yn ystod yr Hydref bydd cyfle o bob math i ddysgu sgiliau newydd ym mhopeth o ffotograffiaeth i ddawnsio bol – mae gennym rywbeth ar gyfer pob oed a gallu.

Gallwch ddod o hyd i fanylion llawn ein holl weithgareddau, dangosiadau sinema a pherfformiadau fan hyn:

www.aber.ac.uk/artscentre

# Canolfan Gerdd y Brifysgol

Gyda dechrau'r flwyddyn academaidd newydd daw rhaglen lewyrchus Canolfan Gerdd y Brifysgol o ensembles a chyngherddau i fyfyrwyr, staff ac unrhyw un fyddai'n hoffi ymuno yn yr hwyl. Cychwynna'r tymor newydd gydag ymarferion yn Neuadd Joseph Parry, yn 10 Maes Lowri a Llyfrgell yr Hen Goleg - gan symud i'r Hen Neuadd cyn gynted ag y bo'r paent wedi sychu!

Bydd yr Undeb Gorawl sy'n gôr cymysg mawr (yn cwrdd ar nosweithiau Gwener) yn bwrw ati ag ystod gyffrous o gerddoriaeth – yn cynnwys *Gloria* gan Karl Jenkins – ar gyfer cyngherddau'r Nadolig a'r Gwanwyn. Bydd y Cyfarwyddwr Cerdd, Dr David Russell Hulme, sydd hefyd yn arwain y côr yn gweithio gyda'r gerddorfa, Philomusica (cwrdd ar nosweithiau Mercher), i baratoi am gyngerdd ym mis Rhagfyr a fydd yn cynnwys Jason Lewis, sy'n drwmpedwr lleol o Aberystwyth, yn unawdydd concerto. Bydd hefyd yn cynnwys cerddoriaeth wych gan Benjamin Britten (*Four Sea Interludes* o Peter Grimes) a Tchaikovsky (*Francesca da Rimini*) – a llawer mwy.

Noson y Band Chwythbrennau yw nos Lun, pan fydd yr arweinydd Aidan Hassan yn dysgu rhaglen eang o ganeuon poblogaidd a chlasurol i'r band bywiog. Ceir hefyd *Simple Strings*, sef noson anffurfiol i chwaraewyr offerynnau llinynnol o bob safon ar nos Fawrth, a *Saxophony* i chwaraewyr y sacsoffon ar nos Iau.



Croesewir aelodau newydd i bob un o'r grwpiau. Dewch yn rhan o sîn gerddoriaeth fyw wych y Brifysgol. Ewch i wefan y Canolfan Gerdd i gael rhagor o fanylion - www.aber.ac.uk/en/music/.

# Digwyddiad codi arian Enfys Aber

Mae Enfys Aber yn cynnal digwyddiad arbennig i godi arian ar nos Sadwrn 26 Hydref yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth. Bydd y digwyddiad yn codi arian ar gyfer elusennau LGBT (Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol) gan gynnwys lloches ddiogel ar gyfer Gweithredwyr Hawliau Hoyw Uganda. Bydd yna berfformiadau cerddorol byw gan fandiau lleol gwych megis Gyspy Wine Cartel, a pherfformiadau theatraidd gan Gwmni Theatr Run Amok a llawer, llawer mwy. Croeso i bawb, o bob cefndir.

Am ragor o wybodaeth gweler: www.aberystwythartscentre.co.uk/cy/music/enfys-aber-fundraising-event

ENFYS ABER
BALCH STAFF ABER STAFF PRIDE

## CYFLWYNIAD I ATHROFEYDD

At ddechrau Awst, daeth ein strwythur Athrofaol newydd a ffyrdd newydd o weithio ar draws y Brifysgol i fodolaeth. Mae'r Athrofeydd yn darparu fframwaith ar gyfer mwy o gydweithredu rhwng Adrannau, a fydd yn gwella ein gweithgareddau rhyngddysgyblaethol, yn ein galluogi i ddatganoli mwy o wneud penderfyniadau i Dîm Gweithredol yr Athrofa; a darparu cysondeb a gwella gwasanaethau a chefnogaeth ar draws y Brifysgol.

## ATHROFA'R GWYDDORAU BIOLEGOL, AMGYLCHEDDOL A GWLEDIG



**Cyfarwyddwr yr Athrofa**
Yr Athro Wayne Powell
wap@aber.ac.uk
01970 623001



**Rheolwr yr Athrofa**
Emyr Phillips
emp24@aber.ac.uk
01970 622961

Mae Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) yn ganolfan ymchwil ac addysgu a gydnabyddir yn rhyngwladol sy'n darparu sail unigryw ar gyfer ymchwil mewn ymateb i heriau byd-eang megis diogelwch bwyd, bio-ynni a chynaliadwyedd, ac effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae Gwyddonwyr IBERS yn cynnal ymchwil sylfaenol, strategol a chymhwysol o enynnau a moleciwlau i organebau a'r amgylchedd.

Gyda 360 o aelodau staff, IBERS yw'r Athrofa fwyaf yn y Brifysgol, yn addysgu 1,350 o fyfyrwyr israddedig a mwy na 150 o fyfyrwyr ôl-raddedig, ac mae'n gartref i'r Ganolfan Ffenomeg Planhigion Genedlaethol a Chanolfan Ragoriaeth ar gyfer BEACON Bioburo - partneriaeth £20 miliwn rhwng Prifysgolion Aberystwyth, Bangor ac Abertawe.

**Manylion pellach:** www.aber.ac.uk/cy/university/institutes/ibers/

## ATHROFA ADDYSG, DATBLYGU PROFFESIYNOL A GRADDEDIGION



**Cyfarwyddwr yr Athrofa**
Yr Athro Tim Woods
tww@aber.ac.uk
01970 622532



**Rheolwr yr Athrofa**
Annette Davies
amd@aber.ac.uk
01970 628512

Mae Athrofa Addysg, Datblygu Proffesiynol a Graddedigion yn cynnwys yr Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes (YADGO – sy'n cyfuno Addysg, Astudiaethau Plentyndod, Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR), Cymraeg i Oedolion, Dysgu Gydol Oes, a'r cyhoeddwyr adnoddau addysgol CAA), y Gwasanaeth Gyrfaoedd, Canolfan Ryngwladol Saesneg, Cymorth Dysgu, y Ganolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academaidd (CDSYA), ac Ysgol y Graddedigion.

Yn ogystal â chanolbwyntio ar ei gwaith mewnol, mae'r Athrofa hefyd yn edrych allan ar y brifysgol gyfan, a'i nod yw rhoi canolbwynt integredig ar gyfer addysg, addysgeg, ac ymarfer dysgu ac addysgu ar bob lefel ar draws y brifysgol. A lle y bo'n briodol, byddwn hefyd yn cynnwys datblygu a hyfforddi sgiliau academaidd a sgiliau arwain.

**Manylion pellach:** www.aber.ac.uk/cy/university/institutes/iepgd/

## YR ATHROFA DAEARYDDIAETH, HANES A GWLEIDYDDIAETH



Cyfarwyddwr yr Athrofa
**Yr Athro Neil Glasser**
nfg@aber.ac.uk
01970 622785



Rheolwr yr Athrofa
**Jackie Sayce**
jqs@aber.ac.uk
01970 622212

Mae'r Athrofa Daearyddiaeth, Hanes a Gwleidyddiaeth yn cynnwys yr Adrannau Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, Hanes a Hanes Cymru, a Gwleidyddiaeth Ryngwladol.

Ag iddi dros 100 aelod amser llawn o staff academaidd, 20 o staff ategol a thechnolegol a chymuned uwchraddedig ffyniannus, mae hi'n un o'r athrofeydd mwyaf o'i bath yn y byd. Bwriad IGHP yw tyfu i fod yn athrofa rhyngddisgyblaethol o'r radd flaenaf gydag enw da byd-eang am ansawdd ei hymchwil, addysgu a'i graddedigion.

**Manylion pellach:** www.aber.ac.uk/cy/university/institutes/ighp/

## ATHROFA'R GWYDDORAU DYNOL



Cyfarwyddwr yr Athrofa
**Yr Athro Kate Bullen**
kab@aber.ac.uk
01970 622688



Rheolwr yr Athrofa
**Jo Strong**
jgs@aber.ac.uk
01970 621949

Mae Athrofa'r Gwyddorau Dynol yn gartref i adran Seicoleg ac adran Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff, sef dwy adran ifancaf Prifysgol Aberystwyth.

Mae'r Athrofa yn darparu profiad dysgu eithriadol i 600 o israddedigion, bron, ac i niferoedd cynyddol o uwchraddedigion. Mae mwy nag 20 o staff academaidd yn gweithio ar y cyd â'r staff gweinyddol a thechnegol i ddarparu graddau sy'n canolbwyntio ar roi gwyddoniaeth ar waith mewn grwpiau yn y byd go iawn, ac ar ddatblygu sgiliau ein graddedigion. Mae gwaith ymchwil ar draws yr Athrofa yn canolbwyntio ar roi gwybodaeth ar waith yn ymarferol ym meysydd iechyd, gweithgareddau a pherfformiad corfforol pobl; ac mae ennyn cyswllt â'r gymuned yn thema benodol sy'n uno'r cwbl.

**Manylion pellach:** www.aber.ac.uk/cy/university/institutes/iohs/

## CYFLWYNIAD I ATHROFEYDD

### YR ATHROFA LLENYDDIAETH, IEITHOEDD A'R CELFYDDYDAU CREADIGOL (LLICC)



Cyfarwyddwr yr Athrofa
**Professor Sarah Prescott**
scp@aber.ac.uk
01970 622534



Rheolwr yr Athrofa
**Kath Williams**
ktw@aber.ac.uk
01970 621535

Mae'r Athrofa Llenyddiaeth, Ieithoedd a'r Celfyddydau Creadigol yn cynnwys pump o adrannau academaidd: Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol, Ieithoedd Ewropeaidd, Yr Ysgol Gelf, ac Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, ac y mae hi'n dwyn ynghyd gymuned academaidd fyrlymus sy'n darparu ymchwil ac addysgu rhagorol.

Rydym hefyd yn falch o gynnwys Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth - un o ganolfannau celfyddydau mwyaf llwyddiannus y Deyrnas Unedig - a Chanolfan Gerdd Prifysgol Aberystwyth fel partneriaid yn yr Athrofa ac wrth wraidd ein agenda i ymgysylltu â'r cyhoedd a'r gymuned Mae'r cydweithredu hyn rhwng partneriaid academaidd a darparwyr celf yn creu canolfan ragoriaeth unigryw yng Nghymru sydd â phwysigrwydd ac effaith rhyngwladol ac sy'n cynrychioli ystod eang o ddisgyblaethau ac ymdrechion creadigol sy'n hanfodol i gymdeithas a diwylliant yr unfed ganrif ar hugain.

**Manylion pellach:** www.aber.ac.uk/cy/university/institutes/illca/

### ATHROFA RHEOLAETH, Y GYFRAITH A GWYDDOR GWYBODAETH



Cyfarwyddwr yr Athrofa
**Yr Athro Andrew Henley**
a.g.henley@aber.ac.uk
01970 622511



Rheolwr yr Athrofa
**Adrian Harvey**
avh@aber.ac.uk
01970 622368

Y mae Athrofa Rheolaeth, Y Gyfraith a Gwyddor Gwybodaeth yn bodoli i gynnal a hyrwyddo ymchwil byd-arweiniol o ansawdd rhyngwladol, i ddarparu 'profiad myfyriwr' eithriadol i israddedigion ac uwchraddedigion, i godi proffil y meysydd pwnc unigol o fewn i'r gymuned academaidd genedlaethol a rhyngwladol, ac i fod yn sbardun ar gyfer creu a throsglwyddo gwybodaeth yn y rhanbarth.

Mae'r Athrofa'n hyrwyddo'r gwaith o gyflawni cenadwri ac amcanion strategol Prifysgol Aberystwyth. Fe fydd yn darparu fframwaith ar gyfer archwilio ac ecsploetio elfennau byw ymchwil, addysgu a chyfnewid gwybodaeth ym meysydd y gyfraith, troseddeg, rheoli busnes, economeg ac astudiaethau gwybodaeth.

**Manylion pellach:** www.aber.ac.uk/cy/university/institutes/imlis/

### YR ATHROFA MATHEMATEG, FFISEG A CHYFRIFIADUREG



Cyfarwyddwr yr Athrofa
**Professor Qiang Shen**
qqs@aber.ac.uk
01970 621825



Rheolwr yr Athrofa
**Dave Smith**
dhs@aber.ac.uk
01970 622446

Mae'r Athrofa yn dwyn ynghyd ymchwil ac addysgu rhagorol a blaengar mewn tair arbenigaeth gyflenwol: Mathemaeg, Ffiseg a Chyfrifiadureg. Oherwydd synergedd y tair disgyblaeth gall yr Athrofa hyrwyddo agwedd ryngddisgyblaethol tuag at arloesi a dysgu gwyddonol.

Mae ein colegoldeb yn rhoi cyfleoedd newydd a heriol i atgyfnerthu profiad addysgol a datblygiad academaidd y myfyrwyr, i wella llwybrau gyrfa ein graddedigion a'n staff, ac i wthio ffiniau gwybodaeth wyddonol.

**Manylion pellach:** www.aber.ac.uk/cy/university/institutes/impcs/

## SWYDDI PENNAETH ADRANNAU ACADEMAIDD 2013-14

| | | |
|---|---|---|
| **Ysgol Gelf** | | |
| Yr Athro Robert Meyrick | 2460 | rtm |
| **Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig** | | |
| Yr Athro Wayne Powell | 3001 | wap |
| **Adran Cyfrifiadureg** | | |
| Yr Athro Qiang Shen | 1825 | qqs |
| **Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes** | | |
| Dr Malcolm Thomas | 2102 | mlt |
| **Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol** | | |
| Dr Elisabeth Salter | 2193 | els |
| **Adran Ieithoedd Ewropeaidd** | | |
| Yr Athro David Trotter | 2551 | dtt |
| **Adran Astudiaethau Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear** | | |
| Yr Athro Rhys Jones | 2594 | raj |
| **Adran Hanes a Hanes Cymru** | | |
| Dr Martyn Powell | 2870 | mpp |

| | | |
|---|---|---|
| **Adran Astudiaethau Gwybodaeth** | | |
| Dr Allen Foster | 2189 | aef |
| **Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol** | | |
| Dr Jenny Mathers | 2705 | zzk |
| **Adran y Gyfraith a Throseddeg** | | |
| Yr Athro Noel Cox | 1910 | noc1 |
| **Ysgol Rheolaeth a Busnes** | | |
| Yr Athro Steve McGuire | 2200 | sbm |
| **Adran Mathemateg a Ffiseg** | | |
| Yr Athro Andrew Evans | 2800 | dne |
| **Adran Seicoleg** | | |
| Yr Athro Kate Bullen | 2688 | kab |
| **Adran y Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff** | | |
| *(Pennaeth dros dro)* Yr Athro Kate Bullen | 2688 | kab |
| **Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu** | | |
| Dr Jamie Medhurst | 2152 | jsm |
| **Adran y Gymraeg** | | |
| Dr Cathryn Charnell-White | 2851 | ctc |